# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 29 Mawrth 2023

Yn Bresennol (yn bersonol)
Cynghorydd Mrs D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd Steve Alderman, Cynghorydd Dr SL Hancock, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Mrs J James, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd Mrs V Thomas a'r Cynghorydd Mrs M Wiggins.

Yn bresennol (o bell)
Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd Mrs S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams BEM.

[Parc Llanion, Doc Penfro ac o Bell 10.30am – 11.55am; 12.10pm – 1.00pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd R Owens a Dr RM Plummer.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd Dr M Havard a'r Cynghorydd M Wiggins ill dau bod ganddynt fuddiant personol yn Adroddiad 10/23 Adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2023 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Eglurwyd bod y paragraff yn dilyn cofnod 6(ii) yn cyfeirio at gofnodion y Pwyllgor Ieuenctid, ac nid y Pwyllgor Rheoli Datblygu y cyfeiriwyd ato yng nghofnod 6(i).

**Penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2023 yn amodol ar yr eglurhad uchod.

**4. Log Gweithredu**
Nodwyd cynnwys y Log Gweithredu. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Croeso Sir Benfro wedi'i gynnal y diwrnod blaenorol pan gyflwynwyd eu cyfrifon, ac y byddai yn awr yn dosbarthu'r cyfrifon hynny.

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd R Owens oedd yn anhwylus ar y pryd. Nid oedd y Cadeirydd wedi gallu siarad â'i wraig, ond roedd wedi gadael neges i ddweud bod y swyddogion a'r Aelodau yn meddwl amdano ac yn

dymuno'r gorau iddo. Nodwyd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd fyddai'n ymddeol ddiwedd yr wythnos. Diolchwyd i Gyngor Dinas Tyddewi am eu gwahoddiad i'w Cinio Dydd Gŵyl Dewi, yr oedd y Cadeirydd wedi'i fynychu, ynghyd â'r Cynghorydd M Wiggins. Roedd y Cadeirydd hefyd wedi mynychu’r cyfarfodydd canlynol:

- Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a
- Sesiwn Aelodau Etholedig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar roi arweiniad ar newid yn yr hinsawdd;
- Gweithdy APCAP ar ddosbarthiadau defnydd tai;
- Cyfarfod Staff yr Awdurdod pan ddiolchwyd i'r staff ar ran yr Aelodau;
- Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Croeso Sir Benfro;
- cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandyfái i drafod y posibilrwydd o gau toiledau, a strategaeth toiledau CSP.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi ymateb i ohebiaeth ynghylch Tocynnau Tymor Meysydd Parcio a chau toiledau. Diolchwyd i Mrs J James am fynychu agoriad y cyfleusterau twristiaeth newydd ym Mhentywyn. Yn olaf, dywedodd bod cyfarfod Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd oedd i'w gynnal y bore hwnnw wedi'i ohirio tan 30 Mawrth.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau’r Awdurdod i’r Aelodau eu hystyried/er gwybodaeth:

(i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2023 ac ar 13 Chwefror 2023;
(ii) Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2023;
(iii) Pwyllgorau Ieuenctid a gynhaliwyd ar 14 Chwefror a 28 Chwefror 2023.

**Penderfynwyd** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Ymateb i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 Llywodraeth Cymru: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol – diwygiadau pellach**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Llywodraeth Cymru wedi diweddaru Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 a'i gyhoeddi fis Medi 2021 cyn i’r Nodyn ddod i rym fis Rhagfyr y flwyddyn honno. I gyd-fynd â’r TAN15 newydd roedd map perygl llifogydd wedi’i ddiweddaru – y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio – oedd yn cymryd materion newid yn yr hinsawdd i ystyriaeth. Ar ôl cyhoeddi’r ddogfen hon, daeth yn amlwg y byddai’n cael effaith sylweddol mewn rhai rhannau o Gymru.

Er mwyn rhoi cyfle i ystyried y materion hyn ymhellach, ac i awdurdodau lleol gael amser i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ganlyniadau llifogydd a newid hinsawdd yn eu hardaloedd, dywedwyd bod y TAN15 newydd a'r Map Llifogydd yn dod i rym ar gyfer Cynllunio wedi'i ohirio tan y 1af o Fehefin 2023. Yn y cyfamser, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer eu hardal, naill ai fesul ardal neu fesul rhanbarth. Roedd yr Awdurdod hwn wedi ymuno ag awdurdodau cyfagos ac wedi comisiynu ymgynghorwyr i baratoi'r Asesiad Strategol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru. Nid oedd yr Asesiad wedi amlygu unrhyw faterion i'r Parc Cenedlaethol gan nad oedd yr un o'r dyraniadau tir a gynhwyswyd yn y Cynllun Datblygu Lleol 2 o fewn yr ardaloedd risg llifogydd, a bod y polisïau yn y Cynllun sy'n ymwneud â llifogydd a newid arfordirol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn weithredol.

Roedd yr Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i'r TAN15 oedd wedi'i ddiweddaru ac a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn 2021, ac wedi croesawu'r newidiadau arfaethedig fyddai'n rhoi mwy o eglurder wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio hapfasnachol mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd. Mewn llefydd eraill yng Nghymru, fodd bynnag, roedd yn amlwg bod problemau mawr yn wynebu'r awdurdodau lleol hynny sydd ag ardaloedd o iseldir ar foryd oedd yn cynnwys ardaloedd lle'r oedd prosiectau neu gynigion adfywio ar raddfa fawr wedi'u cynllunio. O ganlyniad i'r trafodaethau parhaus, roedd Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi diwygiadau pellach i'r ddogfen ymgynghori, ac roedd crynodeb o'r diwygiadau hynny yn yr adroddiad. Roedd ymateb yr Awdurdod i'r newidiadau ychwanegol arfaethedig wedi'i nodi mewn atodiad, ac roedd hwn yn cynnwys sylw yn gofyn am eglurhad ar y defnydd o ardaloedd Parth 3 ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach iawn.

Roedd y mwyafrif o'r Aelodau yn hapus â'r ymateb ac yn cytuno mai da o beth yw ceisio eglurhad. Gofynnodd un Aelod am yr ymateb i gwestiwn 5 oedd yn ymwneud ag effaith y TAN diwygiedig ar yr Iaith Gymraeg, a dywedodd y swyddog na ragwelir unrhyw effaith sy'n fwy ar Gymunedau Cymraeg nag ar Gymunedau Di-Gymraeg, ac felly effaith niwtral oedd wedi'i glustnodi. Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ar yr ymateb hwn, gan gynnig ychydig o destun fel ymateb.

Mewn ymateb i bwyntiau eraill a godwyd, cytunodd y swyddog bod cyfathrebu'r polisi yn bwysig ac eglurodd bod yr Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid eraill i wneud hynny. Dywedodd hefyd bod Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yr Awdurdod (CDLl) yn cynnwys polisïau i fynd i'r afael â'r angen i adleoli datblygiadau o ardaloedd risg uchel, ac y byddai'r rhain yn cael eu hailystyried pan fyddai'r CDLl yn cael ei ddiweddaru nesaf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r ymateb drafft i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y diwygiadau pellach i Nodyn Cyngor Technegol 15: Llifogydd ac Erydu Arfordirol fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad yn amodol ar eglurhad o'r ymateb i gwestiwn 5, sef effaith y fersiwn diwygiedig o TAN 15 ar yr Iaith Gymraeg.

**8. Goblygiadau Newidiadau Llywodraeth Cymru yn ddiweddar mewn Deddfwriaeth a Pholisi Cynllunio o ran Ail Gartrefi a Llety Gosod Tymor Byr**

Mewn ymateb i effaith ail gartrefi a llety gosod tymor byr ar y farchnad dai yng Nghymru, dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth ac i bolisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn ddiweddar. Roedd crynodeb o'r newidiadau hynny yn yr adroddiad, a chlustnodwyd goblygiadau'r newidiadau hyn o ran ystyried ceisiadau cynllunio o dan y Cynllun Datblygu Lleol (2) a'r opsiynau sy'n ymwneud â Chyfarwyddyd Erthygl 4.

Roedd y newidiadau yn cynnwys prosesau diwygiedig ar gyfer creu Cyfarwyddyd Erthygl 4, ac roedd y newidiadau hyn yn rhoi'r gallu i Awdurdodau Cynllunio Lleol, lle roedd ganddynt dystiolaeth, i ddatgymhwyso hawliau datblygu a ganiateir mewn ardal benodol gan Gyfarwyddyd Erthygl 4 a wneir gan Awdurdod Cynllunio Lleol ar sail tystiolaeth leol gadarn. Lle byddai hyn yn dod i rym, byddai'n caniatáu i'r Awdurdod Cynllunio ystyried a oedd angen caniatâd cynllunio i newid o un dosbarth defnydd i'r llall, ac i reoli nifer yr ail gartrefi ychwanegol a llety gosod tymor byr mewn ardal.

Roedd Cyngor Sir Penfro wedi rhyddhau peth gwybodaeth yn ddiweddar ar Dreth y Cyngor a Threthi Annomestig oedd yn rhoi mwy o dystiolaeth safle-benodol ar nifer yr ail gartrefi a llety gosod tymor byr yn y Canolfannau yn ardal y Cynllun. Roedd y swyddogion o'r farn y byddai angen mwy o ddadansoddi data a mwy o waith ymchwil pe bai'r Awdurdod yn dymuno ymchwilio i sefydlu Cyfarwyddyd Erthygl 4.

Dywedwyd mai yn y tymor byrrach, hyd nes y gwneir unrhyw benderfyniad ynghylch a ddylid gwneud cyfarwyddyd Erthygl 4 neu beidio, bod ceisiadau unigol yn cael eu cyflwyno lle gallai materion yn ymwneud â dosbarthiadau defnydd newydd C5 ac C6 godi. Yn yr achosion hynny, gellid gosod amodau deiliadaeth fesul achos fel y nodir yn yr adroddiad.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am yr adroddiad, ac am y seminar defnyddiol ar y pwnc hwn a gynhaliwyd yn ddiweddar, gan nodi bod hwn yn fater sensitif a chymhleth. Yn benodol, ystyriwyd bod y llinell sylfaen ar gyfer ystyried y cynnydd mewn prisiau tai yn hollbwysig. Gofynnwyd, fodd bynnag, bod y dull gweithredu yn talu mwy o sylw i effaith andwyol ail

gartrefi a llety gwyliau ar y Gymraeg mewn rhai cymunedau, a bod y cyfeiriad at osod amodau cynllunio drwy 'weithdrefnau rheoli datblygu arferol' yn cynnwys ystyried Polisïau, datganiadau a Deddfau Llywodraeth Cymru ar yr Iaith Gymraeg wrth bennu sensitifrwydd.

**Penderfynwyd:**

a) nodi cynnwys yr adroddiad.
b) ymchwilio ymhellach i'r data a'r dystiolaeth allai fod yn sail i sefydlu Cyfarwyddyd Erthygl 4 gan gynnwys gwaith ymchwil ar yr effeithiau posibl ar brisiau tai ac ar yr Iaith Gymraeg.
c) ystyried gosod amodau cynllunio ar geisiadau am ganiatâd cynllunio fesul achos drwy'r gweithdrefnau rheoli datblygu arferol.

**9. Pwyllgor Ieuenctid Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Swyddog Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Ieuenctid ac i Michele Chung, oedd yn rhan o Genhedlaeth Nesaf Arfordir Penfro, oedd yn cynnwys Parcmyn Ieuenctid a'r Pwyllgor Ieuenctid, i'r cyfarfod. Cyflwynodd Michele Faniffesto Ieuenctid Sir Benfro, ac eglurodd bod y maniffesto yn seiliedig ar Faniffesto Ieuenctid Europarc y cytunwyd arno ychydig flynyddoedd yn ôl, ond i hwnnw gael ei deilwra i gynnwys materion sy'n fwy perthnasol i Sir Benfro. Roedd y Maniffesto –oedd yn Gymraeg ac yn Saesneg – yn amlygu dibenion y Parc Cenedlaethol a blaenoriaethau'r Awdurdod, ac yn cwmpasu pedwar prif faes: Grymuso Ieuenctid, Byw, Dysgu a Gweithio, ynghyd â galwad i weithredu; roedd yn ddogfen fyw, fyddai'n cael ei diweddaru yn y dyfodol i amlygu barn pobl ifanc wrth symud ymlaen. Byddai'r Maniffesto, ynghyd â'r byrddau murlun a Fideo'r Genhedlaeth Nesaf, yn cael eu defnyddio i ymgysylltu â phobl ifanc i ymwneud â'r Parc Cenedlaethol, ond y gobaith oedd y byddai hefyd yn dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau drwy eu helpu i ddeall y materion sy'n wynebu pobl ifanc a chlustnodi pa gamau yr oedd angen iddynt eu cymryd i gefnogi'r bobl ifanc. Ychwanegodd y swyddog ei bod wedi mynd â'r byrddau murlun allan saith gwaith a'u bod yn ysbrydoliaeth i gynhyrchu dros 200 o ddarnau o waith celf o ysgolion y Sir.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog ac i Michele am gyflwyniad ysbrydoledig oedd yn rhoi gobaith mawr ar gyfer y dyfodol, ac ychwanegodd mai mater i'r Aelodau oedd ystyried y Maniffesto Ieuenctid yn ei benderfyniadau wrth symud ymlaen. Gan nodi bod lledaenu'r neges yn allweddol, awgrymodd Aelodau eraill y gellid cysylltu â Chyngor Sir Penfro, oedd wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau allgymorth gyda phobl ifanc yn ddiweddar, y gellid tynnu sylw at hyn yn Oriel y Parc, neu y gellid gwneud cyflwyniad i Seminar Aelodau Cymru yn y dyfodol. Gofynnwyd am gael dolen gyswllt i'r fideo a ddangoswyd.

**Nodwyd.**

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.55am a 12.10pm]*

**10. Cyflwyniad am Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Er budd yr Aelodau mwy newydd, eglurodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi cytuno, fel rhan o ddatblygu ei seilwaith codi arian, i sefydlu Ymddiriedolaeth elusennol ychydig dros 5 mlynedd yn ôl. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig, ac yn gweithredu mewn partneriaeth â'r Awdurdod, ond yn annibynnol ar yr Awdurdod, allai enwebu hyd at draean o'r Ymddiriedolwyr; y cynrychiolwyr presennol oedd Dr M Havard a'r Cynghorydd M Wiggins. Roedd y staff wedi cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau codi arian. Fodd bynnag roedd rhai ffynonellau cyllid ond yn agored i elusennau, ac yn hyn o beth roedd yr Ymddiriedolaeth wedi chwarae rôl allweddol, a mynegodd ei ddiolch i'r Ymddiriedolwyr am eu gwaith.

Yna rhoddodd Rheolwr Cyllid Allanol yr Awdurdod, oedd hefyd yn Gyfarwyddwr yr Elusen, gyflwyniad yn amlinellu'r modd yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu, a rhoddodd ddadansoddiad o'i hincwm a'i gwariant, a thynnu sylw at rai o'r prosiectau yr oedd wedi'u hariannu. Daeth â'r cyflwyniad i ben drwy amlinellu rhai o'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol, oedd yn cynnwys cynyddu'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd, gwella ei chysylltiadau corfforaethol, rhaglenni mawr rhoddwyr a stiwardiaeth, a chynyddu ei hincwm etifeddol, a gofynnodd am gymorth yr Aelodau i hyrwyddo cymorth i'r Ymddiriedolaeth.

Gan ddiolch iddi am y cyflwyniad, gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau, gan gynnwys cwestiwn ynghylch y meini prawf ar gyfer datblygu cysylltiadau corfforaethol. Eglurodd y swyddog ei bod yn sicrhau diwydrwydd dyladwy priodol, ac mai'r Ymddiriedolwyr sy'n gwneud y penderfyniadau. Ychwanegodd un o'r Ymddiriedolwyr bod gan yr Ymddiriedolaeth bolisi codi arian a bod yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â chodi arian moesegol. Amlygwyd hefyd y nifer fechan o staff sy'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth, ac atebodd y swyddogion bod yr Ymddiriedolaeth yn fuddsoddiad hirdymor, a'r nod oedd cael yr incwm i gyfiawnhau cyflogi staff ychwanegol.

**Nodwyd.**

**11. Adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Aelodau wedi cytuno, yng nghyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd fis Chwefror 2018, i sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol leol, a chytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Mai 2018.

Roedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwnnw bellach fod dod i ben ac felly cynigiwyd adnewyddu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth am 5 mlynedd arall, o fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2028. Roedd copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig wedi'i atodi i'r adroddiad.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod y model wedi gweithio'n dda, ond roedd rhai newidiadau wedi'u gwneud i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i amlygu'r ffaith bod ail aelod o staff bellach yn cael ei gyflogi fel rhan o dîm codi arian yr Awdurdod a bod darpariaeth ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd ar draws y tîm. Mewn ymateb i bryder ynghylch y trefniadau partneriaeth y gallai'r Ymddiriedolaeth eu gwneud, sicrhaodd y Prif Weithredwr yr Aelodau hefyd bod gan yr Awdurdod y gallu yn y pen draw i wrthod cynigion cyllid gan yr Ymddiriedolaeth petai'n anhapus â'r cynnig.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd gydag Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023 i Fawrth 2028.

**12. Grŵp Tasg a Gorffen o Aelodau i ystyried Ariannu Toiledau**

Atgoffwyd yr Aelodau y bu nifer o geisiadau gan Gyngor Sir Penfro yn ystod y 18 mis diwethaf am arian i gynnal a chadw rhwydwaith o doiledau o gwmpas y sir. Hyd yn hyn nid oedd yr Awdurdod wedi cytuno i'r ceisiadau hynny. Roedd llythyr pellach wedi dod i law yn ddiweddar yn hysbysu'r Awdurdod y byddai nifer o doiledau yn ardal y Parc Cenedlaethol yn cau y flwyddyn nesaf, oni bai y derbynnir cymorth ariannol gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu sefydliadau eraill.

Mewn ymateb cynigiwyd sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen o Aelodau i ystyried y mater, gyda'r bwriad o adrodd yn ôl ar ei ganfyddiadau i gyfarfod o'r Awdurdod erbyn mis Medi 2023 fan hwyraf. Roedd Cylch Gorchwyl drafft wedi'i atodi i'r adroddiad, a byddai'r Grŵp yn cael ei hwyluso gan y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu.

**Penderfynwyd**:

a) sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o Aelodau i ddatblygu ymateb i gais Cyngor Sir Penfro i gynorthwyo cadw rhwydwaith o doiledau yn ardal y Parc Cenedlaethol gan adrodd yn ôl i'r Awdurdod erbyn mis Medi 2023 fan hwyraf;
b) cytuno ar y Cylch Gorchwyl oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad B; a
c) bod aelodau'r Grŵp yn cynnwys y Cynghorydd D Clements, Dr M Havard, y Cynghorydd M James, Mr G Jones, y Cynghorydd R Jordan a'r Cynghorydd C Williams.

13. **Cyfethol y Cadeirydd ar Gydbwyllgor Corfforaethol De-Orllewin Cymru ac Aelodau ar y Pwyllgor Craffu a’r Is-Grwpiau**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu fframwaith ar gyfer mecanwaith cyson o gydweithio rhanbarthol rhwng llywodraeth leol, sef Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Roedd y Cyd-bwyllgorau hyn yn arfer swyddogaethau yn ymwneud â chynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth rhanbarthol, a gallent ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo lles economaidd eu hardaloedd. Roedd Cyd-bwyllgor De-orllewin Cymru yn cynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Penfro a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (“y Cynghorau Cyfansoddol”). O ran y swyddogaethau Cynllunio Strategol, roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn aelodau.

Dros y 18 mis diwethaf roedd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a swyddogion wedi cynnal trafodaethau rheolaidd gydag Aelodau Awdurdodau Lleol y Cyd-bwyllgor ynghylch y modd yr oedd yr Awdurdod wedi ymwneud â'r Cyd-bwyllgor ac ar ba bwyllgorau craffu ac is-bwyllgorau yr oedd yr Awdurdod yn cael ei gynrychioli. O’r trafodaethau blaenorol gyda'r Aelodau roedd achos wedi'i wneud bod yr Awdurdod yn aelod llawn o'r Cyd-bwyllgor, yn gallu pleidleisio ar faterion megis llywodraethu, cyllid yn ogystal â chynllunio, a chael ei gynrychioli ar yr Is-bwyllgorau perthnasol. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd y farn hon gan aelodau'r Cyd-bwyllgor.

Er mwyn datrys y mater, yn eu cyfarfod ar y 7fed o Ragfyr 2022 roedd Cyd-bwyllgor De-orllewin Cymru wedi cytuno i:

- Gyfethol Cadeirydd yr Awdurdod (neu ei gynrychiolydd) ar Gyd-bwyllgor De-orllewin Cymru. Roeddent eisoes yn aelodau llawn o ran Cynllunio Strategol ond byddai hyn yn eu galluogi i gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth ar faterion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio. Fodd bynnag, ni fyddent yn gallu pleidleisio ar faterion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio.
- Cyfethol aelod ar y Pwyllgor Craffu. Ni fyddai’r aelod cyfetholedig yn gallu pleidleisio.
- Cyfethol aelod ar yr is-grwpiau canlynol:
  - Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol
  - Datblygu Economaidd Rhanbarthol
  - Strategaeth Ynni Rhanbarthol

Ni fyddai gan yr aelodau cyfetholedig hawliau pleidleisio.

Nodwyd y byddai'r Awdurdod yn aelod llawn, gyda hawliau pleidleisio, o'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol a'i fod eisoes wedi enwebu'r Is-Gadeirydd i eistedd ar y grŵp hwn. Fodd bynnag, ni fyddai'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Roedd y swyddogion o'r farn bod hwn yn opsiwn pragmatig fyddai'n galluogi'r Awdurdod i ymwneud yn llawn â gwaith y Cyd-bwyllgor, er y byddai hynny heb hawliau pleidleisio yn y mwyafrif o feysydd.

**Penderfynwyd**:
a) cyfethol y Cadeirydd (neu ei Ddirprwy) ar Gyd-bwyllgor De-orllewin Cymru;
b) cyfethol y Cynghorydd S Hancock ar Bwyllgor Craffu Cyd-bwyllgor De Orllewin Cymru;
c) cyfethol y Cynghorydd M James ar yr is-grŵp Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol;
d) cyfethol y Cynghorydd R Jordan ar yr is-grŵp Datblygu Economaidd Rhanbarthol;
e) cyfethol y Cynghorydd S Alderman ar yr is-grŵp Strategaeth Ynni Rhanbarthol.

**14 Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau 2023/24**

Atgoffwyd yr Aelodau mai cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd pennu'r cyflogau a'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yng Nghymru. Roedd ei Adroddiad Blynyddol terfynol ar gyfer 2023/24 bellach wedi'i gyhoeddi, ac roedd y prif argymhellion sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn wedi'u nodi yn yr adroddiad; byddai'r fframwaith cyflogau newydd yn dod i rym ar y 1af o Ebrill 2023.

Nodwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi pennu'r lefelau o Gyflogau Sylfaenol ac Uwch y cyfeirir atynt yn yr adroddiad; ni allai'r Awdurdod amrywio'r lefelau hyn. Fodd bynnag, gofynnwyd i'r Aelodau benderfynu pa swyddi fyddai'n gymwys i dderbyn Uwch Gyflog yn 2023/24, gyda'r cyfyngiad blaenorol o bedwar Uwch Gyflog y gellid eu talu wedi'i ddileu. Roedd tair swydd yn derbyn uwch gyflog ar hyn o bryd, sef swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swyddi hynny sydd i dderbyn Uwch Gyflog yn parhau yn ddigyfnewid.

**Penderfynwyd**:
a) Nodi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023/24.
b) Talu Uwch Gyflog i'r swyddi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

**15. Digwyddiadau Corfforaethol**

Roedd yr adroddiad yn nodi'r digwyddiadau hynny y gwahoddwyd Aelodau'r Awdurdod iddynt yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a gofynnwyd i'r Aelodau gytuno pwy ddylai fynychu'r digwyddiadau hynny.

Gan nad oedd pob Aelod yn bresennol y diwrnod hwnnw, byddai manylion y digwyddiadau yn cael eu dosbarthu i bob Aelod er mwyn rhoi'r un cyfle i bawb oedd â diddordeb i ymateb, a byddai presenoldeb ar sail y cyntaf i'r felin.

**Penderfynwyd** awdurdodi'r Aelodau i fynychu'r digwyddiadau canlynol:

(a) Seminar Aelodau Cymru a drefnir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 24 – 25 Mai 2023 (Pob Aelod).

(b) Cynhadledd Cynllunio Cymru: Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant – 22 Mehefin 2023 yng Nghaerdydd (Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Rheoli Datblygu).

(c) Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau (hyd at 2 Aelod).

(d) Cynhadledd Europarc yn Leeuwarden, Yr Iseldiroedd o 3 – 6 Hydref 2023. Y Ffocws fydd "Teyrnged i'n Tirwedd: Lle mae Natur a Phobl yn Cydgordio" (hyd at 2 Aelod).

(e) Cwrs Sefydlu Cenedlaethol i Aelodau fis Tachwedd yn The Sill: Canolfan Darganfod Tirwedd Genedlaethol, Northumberland (Aelodau newydd fel arfer, neu'r rhai nad ydynt eto wedi cael cyfle i fynychu Cwrs Sefydlu).

**16. Calendr Cyfarfodydd 2023/2024**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y calendr presennol o gyfarfodydd yn dod i ben fis Mehefin 2023 yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ac felly cyflwynwyd calendr o gyfarfodydd y flwyddyn sydd i ddod. Mewn ymateb i gais, nodwyd bod ymgais wedi'i gwneud i gynnal Archwiliadau Safle Rheoli Datblygu ar ddydd Mercher, fodd bynnag ni fu'n bosibl, gydag unrhyw gysondeb, i gydymffurfio â'r cais hwn.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau bod nifer o Weithdai wedi'u trefnu, ac atgoffodd yr Aelodau o bwysigrwydd cwblhau eu Hadolygiadau Datblygiad Personol gan y byddai hynny yn galluogi'r swyddogion i gynllunio hyfforddiant Aelodau yn well gydol y flwyddyn.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r calendr o gyfarfodydd yn 2023/24.

**17. Eitem Frys: Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru - Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**

Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn derbyn grant o ychydig llai na £200,000 a'i fod am ddefnyddio'r arian i brynu tri peiriant ffustio a reolir o bell. Mae'r peiriannau hyn yn offer eithaf arbenigol, a gan ei bod bron yn ddiwedd y flwyddyn ariannol, gofynnwyd am awdurdod i amrywio'r Safonau Ariannol mewn perthynas â phrynu'r peiriannau hyn pe bai angen hynny.

**Penderfynwyd** cymeradwyo amrywio'r safonau ariannol mewn perthynas â phrynu'r peiriannau ffustio a reolir o bell.

**18. Diolch**

Dywedodd y Cadeirydd bod Mrs Janet Evans yn ymddeol o'r swydd Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro ddiwedd y mis, a heddiw oedd ei chyfarfod olaf. Roedd am ddiolch iddi yn bersonol, ac ar ran holl gyn-Aelodau ac Aelodau presennol yr Awdurdod, am ei chymorth a'i harweiniad, a dymuno ymddeoliad hapus iawn iddi. Cyflwynwyd llun iddi a blodau.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 10 Mai 2023 heb eu diwygio. |